

ERP Carms 049- [REDACTED] Aelod o'r Cyhoedd

[REDACTED]
[REDACTED]
[REDACTED]
[REDACTED]
[REDACTED]

ERP Carms 063– Arfon Davies, Llanelli Cyngor Tref

Annwyl bawb,

Diolch yn fawr am eich ymgynghoriad ar y gwaith adolygu a grybwyllir uchod ar Drefniadau Etholiadol Sir Gaerfyrddin.

Mae'r mater wedi'i ystyried gan aelodau Cyngor Tref Llanelli, y Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu a Chyngor Ymgynghorol yn eu cyfarfod neithiwr. Cytunwyd i nodi na fyddai'r Cyngor Tref yn cefnogi'r newid a gynigiwyd i enwi Ward Tyisha. Credir, er y gall y cynnig fod yn gywir yn y Gymraeg, na fyddai'r enw a gynigiwyd yn ysgogi unrhyw ymateb gan drigolion sy'n adnabod yr ardal fel Tyisha.

Byddem yn gofyn i'r enw presennol gael ei gadw.

Gobeithiwn y byddwch yn ystyried hyn fel rhan o'ch ystyriaeth o'r mater.

Cofion gorau,

Arfon

Arfon Davies
Clerc y Dref / Town Clerk
Cyngor Tref Llanelli Town Council
The Old Vicarage
Town Hall Square
Llanelli
SA15 3DD

arfond@llanellitowncouncil.gov.uk

01554 774352

www.llanellitowncouncil.gov.uk



Dilynwch Ni / Follow Us :



Yr wyf yn medru ateb eich neges yn Gymraeg neu Saesneg

I am able to answer your message in Welsh or English

ERP Carms 064– Jon Tregenna, Laugharne Township Community Council

Annwyl DBCC,

Gelwir y Laugharne yn 'Talacharn' yn Gymraeg, yn hytrach na Lacharn.

Mae hyn ar y closynnau sy'n dod i mewn i'r dref - llun wedi'i atodi. A'r rhain...

<https://en.wikipedia.org/wiki/Laugharne>

<https://cadw.llyw.cymru/ymweld/lleoedd-i-ymweld/castell-talacharn>

'Ond mae gan y ward Etholiadol presennol o Dref Laugharne yr enw Cymraeg presennol o Lacharn, ac yr enw Saesneg presennol o Laugharne Township. Mae'r Comisiwn yn cynnig cadw'r enw Cymraeg o Lacharn, a'r enw Saesneg o Laugharne Township ar gyfer y ward etholiadol. Mae'r Comisiynydd Iaith Gymraeg yn cydsynio â'r enwau a gynigir.'

Felly mae hyn yn anghywir...

Cofion,

Jon

Jon Tregenna - Clerk

Laugharne Township Community Council

Email: clerk@ltcc.wales

Website: www.laugharne.org

Annwyl Cher,

Cynhaliodd y LTCC y cyfarfod ddydd Mawrth.

Dywedodd y cynghorwyr mai Talacharn oedd enw Cymraeg Laugharne.

Fi yw Clerc y LTCC, felly anfonais e-bost atoch.

Cofion gorau,

Jon

Jon Tregenna - Clerk

Laugharne Township Community Council

Email: clerk@ltcc.wales

Website: www.laugharne.org



ERP Carms 066ñ Cllr Michael Thomas, Ward Pembrey

Gweler y llythyr wedið atodi, os gwelwch yn dda

16 Hydref 2025

Y Prif Weithredwr
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
4ydd Llawr
Adeilad Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Parthed: Cadw'r ddau enw ward "*Pembrey*" a "*Pen-bre*".

Annwyl Syr/Fadam,

Ysgrifennaf atoch i ymateb i'r cynnig ynglŷn ag enwi Pembrey/Pen-bre, er mwyn annog y Comisiwn yn gryf i **gadw'r ddau enw** yn hytrach na mabwysiadu'r ffurf Gymraeg *Pen-bre* yn unig.

Nid mater o ffafrio sillafiad yn unig yw hwn, ond hefyd un o arwyddocâd diwylliannol, hanesyddol, a gweinyddol dwfn. Yn fy rôl fel un o gynghorwyr ward Pembrey/ *Pen-bre*, mae llawer o breswylwyr wedi cysylltu â mi i fynegi pryderon difrifol ynglŷn â'r cynnig hwn.

Er y byddai'n deg dweud bod llawer, os nad y rhan fwyaf, o'r sgysiau yr wyf wedi'u cael yn llwyr gefnogi parhau i ddefnyddio'r ddau enw lle, roeddent yn chwyrn yn erbyn defnyddio un enw lle yn unig, boed hynny'n Pembrey neu Ben-bre. Mae'r farn gyffredinol yn amlwg o blaid cadw'r ddau.

1. Parhad Hanesyddol.

Mae'r ffurf Saesneg *Pembrey* wedi'i gwreiddio'n ddwfn mewn cofnodion hanesyddol. Mae'n ymddangos yn *Taxatio Ecclesiastica* y Pab Nicolas IV ym 1291 fel "*Pembrey*"¹, ac fe'i defnyddiwyd yn gyson mewn cofrestrau plwyf, cofnodion cyfreithiol, a mapiau ers hynny.

Yn gynharach fyth, ceir tystiolaeth o'r ffurf Gymraeg *Penbre* yn *Liber Landavensis* (Llyfr Llandaf) tua 1066, lle y defnyddir y ffurf *Inpennbre* yn ogystal â ffurfiau eraill dilynol fel *Penbrey*, *Penbre*, ac ati.²

Felly, mae'r ddau enw wedi bod yn ddilys ers canrifoedd ac yn dangos traddodiad hir o ddefnydd deuol.

Mae'r ffurf Gymraeg Penbre/Pen-bre a'r ffurf Seisnigaidd Pembrey wedi cydfodoli ers canrifoedd lawer. Byddai hepgor "Pembrey" yn torri dilyniant sydd wedi bodoli ers cannoedd o flynyddoedd.

Byddwn yn awgrymu'n gryf y byddai hepgor y naill neu'r llall yn torri'r dilyniant hir sefydledig hwnnw.

2. Geirdarddiad a Hunaniaeth Leol.

Mae'r ffurf Gymraeg yn deillio o *Pen* ("brig, copa") a *bre* (hen air Celtaidd/Cymraeg sy'n golygu "cefnen, pentir neu fryn")³, sy'n disgrifio safle'r pentref ar ben y gefnen sy'n edrych dros Fae Caerfyrddin. Felly, mae Penbre (neu Ben-bre) yn golygu "pen y gefnen / pentir" yn llythrennol.

Mae'r nodweddion daearyddol yn adlewyrchu hyn: mae'r pentref/anheddiad ar droed pentir/cefnen (Mynydd Pen-bre), sy'n edrych dros Fae Caerfyrddin. Mae'r dopograffeg yn gynhenid i'r enw, ac mae'r gefnen neu'r pentir yn dirnod diffiniol.

Mae'r ffurf Seisnigaidd *Pembrey* yn addasiad ffyddlon sydd wedi datblygu ei hunaniaeth hanesyddol ei hun. Gyda'i gilydd, mae'r enwau'n adlewyrchu nodweddion daearyddol yr ardal a hanes diwylliannol cyfoethog y gymuned.

3. Treftadaeth Ryfel ac Arwyddocâd Cenedlaethol.

Mae gan yr enw Saesneg *Pembrey* arwyddocâd penodol yn hanes Prydain yr ugeinfed ganrif. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd *Maes Awyr Pen-bre* yn orsaf RAF allweddol, a oedd yn weithredol o 1939 ac a ddefnyddiwyd yn ddiweddarach ar gyfer hyfforddi peilotiaid, amddiffyn o'r awyr, a phatrolau arfordirol⁴.

Ochr yn ochr â hyn, roedd y *Ffatri Ordnans Frenhinol*, a elwir hefyd yn *Ffatri Ordnans Frenhinol Pen-bre*, yn un o'r ychydig brif weithfeydd arfau rhyfel, yn cynhyrchu ffrwydron fel TNT ac RDX ar gyfer ymdrech y rhyfel o 1938 tan 1965⁵. Ym mhob cofnod milwrol a llywodraeth o'r cyfnod, cyfeiriwyd at y safle fel "Pembrey".

Yn ystod y cyfnodau rhyfel, roedd y safle hwn hefyd yn cyflogi miloedd o bobl a fyddai wedi uniaethu â'r enw *Pembrey* ac nid *Pen-bre*. Yn ogystal â hyn, o ganlyniad i natur y gwaith a oedd yn cael ei wneud ar y safle a'r ystod eang o gemegion a ddefnyddiwyd, datblygodd llawer o'r bobl a

weithiodd ar y safle hwn afiechydon a arweiniodd at salwch nychus a marwolaeth.

Felly, mae perygl y gallai'r dreftadaeth hon sy'n bwysig yn genedlaethol gael ei chuddio yn sgil dileu'r enw Saesneg. Mae cofebau rhyfel, atgofion cyn-aelodau o'r lluoedd arfog, ac archifau swyddogol yn defnyddio *Pembrey* yn gyson. Mae cadw'r ffurf Saesneg ochr yn ochr â *Phen-bre* yn gwarchod y cysylltiadau hanesyddol hyn ac yn anrhydeddu cyfraniad y gymuned at amddiffyn y wlad.

4. Twristiaeth a Chydnabyddiaeth Gyfoes.

Heddiw, *Parc Gwledig Pen-bre* yw un o'r atyniadau twristiaid mwyaf adnabyddus yng Nghymru, sy'n denu twristiaid o bob rhan o'r Deyrnas Unedig a thramor⁶.

Yn yr un modd, mae *Cylchffordd Pen-bre* yn lleoliad chwaraeon modur o'r radd flaenaf, a ddefnyddir gan Geir Teithio Prydain, Fformiwla 3, a digwyddiadau rasio mawr⁷.

Mae'r ddau safle wedi'u brandio'n genedlaethol â'r ffurf Saesneg "Pembrey", sy'n adnabyddus y tu allan i Gymru. Byddai ymwelwyr sy'n anghyfarwydd â'r sillafiad Cymraeg dan anfantais pe defnyddid *Pen-bre* yn unig. Mae cadw'r ddau enw yn sicrhau eglurder, yn cefnogi'r economi dwristiaeth, ac yn cynnal cysondeb â'r brandio a'r cyhoeddusrwydd presennol.

5. Cydnabyddiaeth gyfreithiol / gweinyddol a chymdeithasol

Mae'r ffurf Saesneg *Pembrey* wedi cael ei defnyddio'n ffurfiol yn weinyddol, mewn mapiau, gweithredoedd eiddo, dogfennau cyfreithiol, a chofnodion plwyf, ers canrifoedd lawer ac mae wedi'i hymsefydlu'n gadarn mewn llywodraethu lleol, wardiau etholiadol, gweithredoedd eiddo, gwasanaethau post, a dogfennau cyfreithiol.

Mae'r ffurf Gymraeg *Pen-bre* yr un mor bwysig, yn enwedig i siaradwyr Cymraeg, neu bobl sy'n dymuno pwysleisio eu treftadaeth ddiwylliannol / ieithyddol. Mae cadw'r ddau enw yn parchu dwyieithrwydd a'r dynodiadau cyfansoddiadol / diwylliannol a ddefnyddir yng Nghymru (enwau Cymraeg / Saesneg deuol mewn llawer o achosion).

Byddai ei dileu'n cyflwyno ansicrwydd ac anawsterau posibl wrth gysoni cyfeiriadau hanesyddol â defnydd presennol. Mae cadw'r ddau enw yn sicrhau parhad o ran gweinyddiaeth, mapio, a chydnabyddiaeth gymunedol.

6. Hunaniaeth ddiwylliannol, cynhwysiant a hawliau ieithyddol.

Mae gan Gymru dreftadaeth ddwyieithog falch, ac mae bellach yn arfer safonol i adlewyrchu hyn wrth enwi lleoedd. Mae defnyddio *Pembrey* / *Pen-bre* ochr yn ochr yn rhoi'r un parch i siaradwyr Cymraeg a Saesneg, yn helpu i hyrwyddo'r Gymraeg, ac yn adlewyrchu egwyddorion modern cynwysoldeb heb ddifreinio pobl sy'n adnabod y gymuned wrth ei henw Saesneg hirsefydlog.

Felly, mae defnyddio'r ddau enw yn cefnogi iaith a diwylliant Cymru ar yr un pryd. Mae'n cydnabod iaith wreiddiol enwau lleoedd ac yn helpu i gynnal ymwybyddiaeth o dreftadaeth Cymru.

Petai'r ffurf Gymraeg *Pen-bre* yn cael ei defnyddio yn unig, fe allai pobl ddi-Gymraeg golli'r cysylltiad â'r cyfeiriadau Saesneg hanesyddol, a allai achosi dryswch, yn enwedig ar gyfer dogfennau hŷn, teitlau eiddo, mapiau, amgueddfeydd neu gyfeiriadau treftadaeth. I'r gwrthwyneb, gellid ystyried bod hepgor *Pen-bre* yn dileu neu'n ymyleiddio hunaniaeth Gymreig yn yr ardal.

7. Ystyriaethau Ymarferol.

Mae llawer o breswylwyr, busnesau, ac ymwelwyr yn adnabod y pentref fel "Pembrey". Fe allai dileu'r enw cyfarwydd hwn greu dryswch o ran arwyddion, danfoniadau post, llywio, a hyd yn oed gwasanaethau brys. Byddai cynnal y ddau enw'n osgoi tarfu ac yn cynnal eglurder i'r holl randdeiliaid.

Yn aml, mae mapiau, gwybodaeth i dwristiaid, arwyddion, ac ati, yn defnyddio'r ddwy ffurf (neu maen nhw wedi gwneud hynny'n hanesyddol), felly byddai newid i ddefnyddio un yn unig yn gofyn am ailweithio'n helaeth. Byddai cadw'r ddau yn sicrhau parhad mwy didrafferth.

8. Dull Cyson.

Fe ddylai hefyd fod yn fater o gysondeb.

Nodaf y caniatwyd i wardiau cyfagos gadw eu henwau lleoedd Cymraeg a Saesneg.

Er enghraifft, mae gan ward gyfagos **Cydweli a Llanismel** yr enw Cymraeg presennol **Cydweli a Llanismel** a'r enw Saesneg **Kidwelly and St Ishmael**. Ond cadwyd y ddau.

Bwriedir i un o'r wardiau eraill cyfagos, sef **Burry Port/Porth Tywyn**, gadw'r fersiwn Saesneg **Burry Port** a'r fersiwn Gymraeg **Porth Tywyn**.

Mae llawer o enghreifftiau eraill wedi'u cynnwys yn y ddogfen ddrafft sy'n cefnogi'r farn bod y rhan fwyaf o'r wardiau ag enw deuol yn llwyddo i gynnal eu fersiynau Cymraeg a Saesneg.

Casgliad.

Mae gan y Comisiwn Etholiadol gyfrifoldeb pwysig i gydbwyso ystyriaethau diwylliannol, hanesyddol, ac ymarferol yn ei benderfyniadau. Yn yr achos hwn, mae'r dystiolaeth yn gryf o blaid cadw "Pembrey" a "Phen-bre".

Er bod symrlwydd yn werthfawr, ni ddylai ddod ar draul cywirdeb hanesyddol na sensitifrwydd diwylliannol. Mae enwau deuol yn gyffredin yng Nghymru (ac mewn mannau eraill) a gellir eu rheoli gydag arwyddion a dogfennau presennol.

Er y gellid dadlau mai "**Pen-bre**" yw'r ffurf ieithyddol hŷn yn hanesyddol, nid yw'r enw **Pembrey** yn anghywir, mae'r enw hwnnw hefyd yn ddilys yn hanesyddol, ac mae'n amlwg wedi cael ei ddefnyddio'n helaeth yn y gorffennol, ac eisoed wedi'i wreiddio mewn llawer o gofnodion cyfreithiol a gweinyddol fel y ffurf Saesneg swyddogol.

Byddai ei ddileu'n gyfan gwbl yn colli parhad hanesyddol gwerthfawr ac fe allai niweidio cysylltiadau cyfreithiol/treftadaeth. Mae'r ddau enw wedi cydfodoli ers canrifoedd, fel y dangosir gan gofnodion. Nid addasiad hwyrach yn unig yw'r ffurf Saesneg Pembrey; mae ganddi ei gwerth treftadaeth ei hun.

Mae'r ffurf Gymraeg Pen-bre yn cysylltu â'r geirdarddiad gwreiddiol, y ddaearyddiaeth, a'r dreftadaeth ieithyddol. Byddai defnyddio'r ddwy ffurf yn parchu egwyddorion dwyieithog, yn hyrwyddo eglurder, yn cynnal cysondeb cyfreithiol / gweinyddol, ac yn cefnogi hunaniaeth leol.

Mae gan y Comisiwn Etholiadol gyfrifoldeb pwysig i gydbwyso ystyriaethau diwylliannol, hanesyddol, ac ymarferol yn ei benderfyniadau. Yn yr achos hwn, mae'r dystiolaeth yn gryf o blaid cadw "Pembrey" a "Phen-bre". Byddai gwneud hynny'n cydnabod treftadaeth ddwyieithog y gymuned, yn anrhydeddu canrifoedd o ddefnydd hanesyddol, yn gwarchod treftadaeth ryfel Prydain, ac yn diogelu eglurder ymarferol ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr yn awr ac yn y dyfodol.

Anogaf y Comisiwn yn barchus i ailystyried y cynnig a chadw'r ffurf ddwyieithog *Pembrey / Pen-bre* ym mhob cyd-destun swyddogol.

Yn gywir,

Michael Thomas

Y Cyngorydd Michael Thomas

Troednodiadau

1. *Taxatio Ecclesiastica Angliae et Walliae Auctoritate P. Nicholai IV*, 1291, lle y cofnodir y ffurf “Pembrey” ar gyfer y plwyf. [↵](#)
2. *Liber Landavensis* (Llyfr Llandaf), cofnod tua 1066, sy’n cyfeirio at y lle fel *Inpennbre*. [↵](#)
3. Mae “bre” fel elfen sy’n golygu “bryn” neu “gefnen” yn digwydd mewn llawer o doponymau Celtaidd; gweler Thomas Morgan, *The Place-Names of Wales* (1887). [↵](#)
4. Agorodd RAF Pen-bre ym 1939 ac yn ddiweddarach fe ddaeth yn ganolfan hyfforddi allweddol ar gyfer peilotiaid Spitfire a Hurricane; gweler cofnodion hanesyddol y Llu Awyr Brenhinol, yr Archifau Cenedlaethol (AIR 28/662). [↵](#)
5. Roedd Ffatri Ordnans Frenhinol Pen-bre (1938-1965) yn cynhyrchu TNT ac RDX yn ystod yr Ail Ryfel Byd a’r Rhyfel Oer; gweler adroddiadau’r Weinyddiaeth Gyflenwi, yr Archifau Cenedlaethol (cyfres SUPP 5). [↵](#)
6. Parc Gwledig Pen-bre, gwefan ymwelwyr Cyngor Sir Gâr (a gyrchwyd yn 2025). [↵](#)
7. Cylchffordd Pen-bre, gwefan swyddogol Clwb Rasio Modur Prydain (BARC). [↵](#)

ERP Carms 074– Joy Waters, Cyngor Cymuned Dyffryn Cennen

Ar ôl cyfarfod Cyngor Cymuned Dyffryn Cennen, trafodwyd y cynnig hwn ac bydd hi'n well gan y Cyngor i'r etholaethau etholiadol aros fel y maent ar hyn o bryd. Cynghorydd sir E. Thomas yn gyfrifol am ardal Llandeilo, mae'n gwybod y terfynau, ei etholwyr, felly nid oes angen unrhyw gynigion newydd gennym i'r presennol

ERP Carms 078– Cllr Deryk Cundy & Michelle Donaghue, Ward Bynea

Rwyf wedi atodi'r rhesymau pam mae'r cynnig hwn yn hepgor pwyntiau hanfodol, gan gynnwys lefelau uchel o amddifadedd, nifer fwy na'r cyfartaledd o blant, nifer gynyddol o dai yn y ddwy ward, a nifer fwy na'r cyfartaledd o breswylwyr yn y ward wedi'i newid nad yw'n caniatáu ar gyfer y cyfnod 12 mlynedd.

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennwn atoch ynglŷn â'ch cynnig i gyfuno'r ddwy Ward Cyngor Sir, Bynea a Llwynhendy. Rydym yn llwyr yn erbyn y cyfuno arfaethedig a lleihau nifer y Cynghorwyr Sir o bedwar i dri.

Mae'r system bresennol yn gweithio'n dda iawn gan fod y ddwy ward hyn wedi'u rhannu ar hyd llinellau pentref hanesyddol a datblygiadau, ac maen nhw wedi esblygu mewn ffyrdd gwahanol gydag anghenion cymorth penodol y mae'n rhaid eu trin yn wahanol.

Yn gywir

Y Cynghorydd Michelle Donaghue (Ward Bynea)

Y Cynghorydd Deryk Cundy (Ward Bynea)

Crynodeb Gweithredol – Cynrychiolaeth Wardiau Bynea a Llwynhendy

Byddai'r argymhelliad yn niweidio llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, yn tanseilio hunaniaeth gymunedol, ac yn dileu cynrychiolaeth yn yr union fan lle ceir y pwysau uchaf o ran anghenion, amddifadedd a thwf.

1. Mae angen cynrychiolaeth lawn i fynd i'r afael ag argyfwng iechyd ac amddifadedd difrifol Llwynhendy

Mae Llwynhendy yn cynnwys rhai o'r cymdogaethau mwyaf difreintiedig yn Sir Gaerfyrddin, gyda Llwynhendy 3 wedi'i graddio ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru a Llwynhendy 2 ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig.

Mae'r cymunedau hyn yn wynebu caledi sydd wedi ymwreiddio ar draws incwm, tai, addysg, ac iechyd. Cafwyd brigiad o achosion twbercwlosis (TB) yn y ward hefyd yn ddiweddar, y bu angen ymyrraeth ar lefel genedlaethol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i fynd i'r afael â nhw.

Mae hyn yn dangos yn glir sut mae anfantais ddwys yn trosi'n uniongyrchol yn anghydraddoldeb iechyd. Mewn cyferbyniad, mae wardiau cyffredin yn Sir Gaerfyrddin tua chanol y graddfeydd amddifadedd cenedlaethol – sy'n dangos pa mor eithriadol yw'r pwysau cymdeithasol ac iechyd yn Llwynhendy.

Byddai lleihau nifer y cynghorwyr yn yr ardal hon yn gwanhau'r gallu lleol i gydlunu cymorth lles, iechyd, a thai lle y mae ei angen fwyaf yn uniongyrchol.

2. Mae poblogaeth ifanc, sy'n ehangu yn cynyddu'r llwyth gwaith a'r galw am wasanaethau

Gyda'i gilydd, mae 23% o breswylwyr Bynea a Llwynhendy yn iau na 18 oed, o gymharu â'r cyfartaledd sirol o 18%. Mae teuluoedd a phlant yn creu llawer iawn o waith achos mewn meysydd fel ysgolion, trafnidiaeth, gwasanaethau ieuenctid, a thai.

Mae datblygiadau tai newydd mawr yn mynd rhagddynt yn y ddwy ward hefyd, a amlygwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin (2023 – 2028) – gan gynnwys ystadau ym Mynea (coridor Pont Llŵchwr) a Llwynhendy (Pemberton/yr A484). Bydd y cynlluniau hyn yn ychwanegu cannoedd o gartrefi newydd, gan gynyddu nifer yr etholwyr ymhellach a dwysáu llwythi gwaith cynghorwyr.

Mae'r boblogaeth a gwaith achos yn cynyddu, nid lleihau – byddai cwtdgi cynrychiolaeth yn awr yn gam yn ôl ac yn gibddall.

3. Mae rhesymeg y Comisiwn ei hun yn cefnogi cadw pedwar cynghorydd

Cydnabu'r Comisiwn dangynrychiolaeth Bynea yn flaenorol a rhoddodd ddau gynghorydd iddi. Byddai cyfuno â Llwynhendy, gan leihau cyfanswm y cynghorwyr i dri, yn gwrthdroi'r cywiriad hwnnw.

Byddai gan y ward wedi'i chyfuno 2,969 o breswylwyr fesul cynghorydd, o gymharu â'r cyfartaledd sirol o 2,505, ond gyda llawer mwy o bwysau twf a chymhlethdod cymdeithasol. Mae dwyster ansoddol gwaith achos yn y cymunedau hyn ond yn ychwanegu at y pwysau cynyddol ar y Cynghorwyr Sir.

Casgliad ac Argymhelliad

- Ni ddylid cyfuno Bynea a Llwynhendy; dylid eu cadw fel wardiau ar wahân.
- Dylid cadw pedwar cynghorydd, i adlewyrchu amddifadedd, anghydraddoldeb iechyd, a thwf cyflym y boblogaeth.
- Os oes angen addasiadau, dylid defnyddio mân welliannau i ffiniau yn hytrach na chyfuno.
- Mae'n rhaid i'r Comisiwn ystyried tystiolaeth iechyd y cyhoedd (brigiad o achosion TB), sgorau amddifadedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), a thwf tai a gynlluniwyd wrth farnu tegwch cynrychioliadol.

Byddai lleihau nifer y cynghorwyr ym Mynea a Llwynhendy yn gwanhau democratiaeth leol yn un o'r rhannau o Sir Gaerfyrddin sy'n wynebu'r heriau cymdeithasol ac iechyd mwyaf – yn gwbl groes i ddyletswydd y Comisiwn i sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Manylion

1) Mae Llwynhendy'n cynnwys rhai o gymdogaethau mwyaf difreintiedig Sir Gaerfyrddin

- Mae adroddiad cynnydd y Cyngor ei hun yn rhestru "Llwynhendy 3" ymhlith yr ardaloedd bach (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen is (LSOAau) sy'n ddifreintiedig iawn ar draws incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg a thai, ac mae'n nodi ers 2011 bod nifer yr ardaloedd o Sir Gaerfyrddin sydd ymhlith y 30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru wedi cynyddu 25%. (Cyngor Sir Gaerfyrddin)
- Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn amlygu amddifadedd iechyd fel elfen allweddol. Cafodd brigiad o achosion twbercwlosis (TB) diweddar effaith uniongyrchol ar Llwynhendy, gan ddenu sylw cenedlaethol a'r angen am ymyrraeth iechyd y cyhoedd helaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r brigiad hwn o achosion yn pwysleisio anghydraddoldebau parhaus mewn canlyniadau iechyd a mynediad at wasanaethau gofal iechyd yn y ward.
- Roedd crynodebau cynharach hefyd wedi nodi bod Llwynhendy 3 ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig a Llwynhendy 2 ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig yn Sir Gaerfyrddin. Mae amddifadedd parhaus mor ddifrifol â hyn – ynghyd â risg iechyd y cyhoedd fesuradwy – yn dadlau o blaid cynrychiolaeth benodol, nid yn ei herbyn. (Cyngor Sir Gaerfyrddin; Iechyd Cyhoeddus Cymru)

Cymharydd: Nid yw'r rhan fwyaf o'r 51 o wardiau yn Sir Gaerfyrddin yn cynnwys LSOAau sydd yn yr 20% isaf yn genedlaethol. Mae wardiau cyffredin yn agos i 50% (y marc canol), sy'n golygu bod amddifadedd Llwynhendy – a phresenoldeb clwstwr TB a gofnodwyd – yn allanolyn clir sy'n mynnu ffocws cryfach gan gynghorwyr.

Goblygiad: Byddai lleihau capasiti cynghorwyr, gan ddisgwyl i un ward fwy o faint, wedi'i chyfuno, ymgorffori cymunedau ag amddifadedd sydd wedi ymwreiddio a heriau iechyd y cyhoedd a gofnodwyd, yn rhoi llai o sylw i'r union breswylwyr hynny sy'n dibynnu fwyaf ar wasanaethau'r cyngor a chydlynu gan asiantaethau iechyd.

2) Mae'r boblogaeth plant yn uchel – bydd llwythi gwaith sy'n gysylltiedig ag ysgolion a theuluoedd yn cynyddu, nid lleihau

Gan ddefnyddio cyfansymiau wardiau Cyfrifiad 2021:

- Llwynhendy: 1,101 o blant 0–17 oed (25.1%) a 805 o bobl 65+ oed (18.3%) allan o 4,389.
- Bynea: 964 o blant 0–17 oed (21.3%) a 764 o bobl 65+ oed (16.9%) allan o 4,519.
- Y ward wedi'i chyfuno (os caiff ei chreu): 2,065 o blant ($\approx 23.2\%$) a 1,569 o breswylwyr 65+ oed ($\approx 17.6\%$) allan o 8,908 o bobl.

Cymharydd (cyfartaleddau Sir Gaerfyrddin): Plant (0–17 oed) $\approx 18.2\%$ o'r boblogaeth; Preswylwyr hŷn (65+ oed) $\approx 24.1\%$ o'r boblogaeth.

Felly, mae gan Fynea a Llwynhendy boblogaeth plant sydd tua 5 pwynt yn uwch na'r cyfartaledd sirol a phoblogaeth wedi ymddeol sydd 6-7 o bwyntiau yn is, sy'n awgrymu galw dwys am addysg, trafnidiaeth a gwasanaethau i deuluoedd yn hytrach na goruchafiaeth gofal i'r henoed.

Twf tai a gynlluniwyd

Mae Bynea a Llwynhendy yn profi datblygiadau tai newydd sylweddol hefyd, a gadarnhawyd yng nghofrestr gynllunio Cyngor Sir Gaerfyrddin a'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) (2023–2028):

- Ym Mynea, disgwylir i ddyraniadau preswyl newydd ger coridor Pont Llchwyr a'r hen dir diwydiannol i'r dwyrain o'r rheilffordd ychwanegu cannoedd o gartrefi.
- Yn Llwynhendy, rhagamcanir y bydd ystadau cymeradwy ac arfaethedig i'r gogledd o Pemberton ac ar hyd coridor yr A484 yn cynyddu'r boblogaeth yn sylweddol, yn enwedig ymhlith teuluoedd ifanc.

Bydd y datblygiadau hyn yn cynyddu'r boblogaeth a gwaith achos, gan greu gofynion ychwanegol ar addysg, priffyrdd, ac amwynderau lleol ymhell cyn yr arolwg nesaf o ffiniau.

3) Cydnabu rhesymeg ddiweddar y Comisiwn ei hun fod tangynrychiolaeth ym Mynea

Yn ei arolwg blaenorol o Sir Gaerfyrddin, canfu'r Comisiwn fod nifer yr etholwyr fesul aelod ym Mynea 64% yn uwch na'r cyfartaledd sirol ac argymhellodd gynyddu Bynea i fod yn ward â dau aelod er mwyn cywiro'r dangynrychiolaeth.

Bydd symud nawr i drefniant cyfun â thri aelod ar gyfer Bynea a Llwynhendy, sy'n ardal fwy o faint, yn gwrthdroi'r rhesymeg gywirol honno ac yn ail-greu'r pwysau ar gydraddoldeb etholiadol a llwyth gwaith cynghorwyr.

Cymharydd: Ar hyn o bryd, mae'r ward gyffredin yn Sir Gaerfyrddin yn ethol ≈ 1 cynghorydd fesul 2505 o breswylwyr ($187,900 \div 75$). Byddai'r cyfuno arfaethedig yn golygu y byddai gan Fynea a Llwynhendy $\approx 2,969$ o breswylwyr fesul cynghorydd – llwyth achosion 20% yn drymach na'r hyn sy'n arferol yn y sir, er gwaethaf y cymhlethdod cymdeithasol dwysach.

Roedd etholwyr Bynea wedi'u tangynrychioli yn flaenorol, a oedd yn cyfiawnhau ei statws â dau aelod. Felly, byddai ward wedi'i chyfuno yn dwysáu llwythi gwaith ac yn lleihau hygyrchedd i breswylwyr mewn cymunedau difreintiedig ac sy'n tyfu.

Cymaryddion Allweddol (Data Cyfrifiad 2021 a'r Comisiwn)

Dangosydd	Bynea	Llwynhendy	Cyfunol	Cyfartaledd Sir Gaerfyrddin (51 o wardiau – 75 o Gynghorwyr)
Cyfanswm y boblogaeth	4,519	4,389	8,908	187,900 (cyfanswm)
Preswylwyr fesul cynghorydd (arfaethedig)	—	—	2,969	2,505
Plant (0–17 oed)	21.3%	25.1%	23.2%	18.2%
Pobl hŷn (65+ oed)	16.9%	18.3%	17.6%	24.1%
Statws MALIC	Cyfartalog	10–20% mwyaf difreintiedig a chlwstwr iechyd TB	—	Canolig ($\approx 50\%$)

Cynghorwyr (presennol)	2	2	4	—
Cynghorwyr (arfaethedig)	—	—	3	—

Ffynonellau (darnau allweddol)

- Llywodraeth Cymru / StatsCymru – Methodoleg a diben MALIC.
- Cyngor Sir Caerfyrddin (Adroddiad Cynnydd 2024) – Rhestrir Llwynhendy 3 ymhlith yr LSOAau mwyaf difreintiedig.
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (2023) – Clwstwr TB yn Llwynhendy a chamau gweithredu i ymateb.
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru – Argymhellion Terfynol (adran “Bynea”).
- Cyfrifiad 2021 – Cyfansymiau a phroffiliau oedran y boblogaeth (Bynea a Llwynhendy).
- Porth Cynllunio a CDLl Cyngor Sir Caerfyrddin (2023–2028) – dyraniadau tai a datblygiadau cymeradwy ym Mynea a Llwynhendy.

ERP Carms 079 – [REDACTED] Aelod o'r Cyhoedd

Cynigaf y dylid ailenwi Llannon yn Llan-Non, Cross Hands a Y Tymbl i wneud yn gliriach y prif ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn y ward hwn

ERP Carms 081 – [REDACTED] Aelod o'r Cyhoedd

Bydd uniad arfaethedig Llandeilo â ward wledig fawr Llanfinagel Aberycyth yn ei gwneud hi'n anodd i'r cynghorwyr reoli'r ward. Hefyd pam mae Llandeilo y dref faer yn cael ei ddisgyn yn enw'r ward afresymol

ERP Carms 085 – Tina Roberts, Llansteffan a Llanybri CC

Penderfynodd CC Llansteffan a Llanybri gais am barhad o'r ddau St Clears a Llansteffan a Sanclêr a Llansteffan ochr yn ochr â pharhad statws dwyieithog nifer o wardiau etholiadol eraill yn y Sir. Mae nifer sylweddol o bobl o fewn y ward yn siarad Saesneg yn unig a byddai'n elwa o barhad defnydd y ddau enw. Cofnodion atodedig: Eitem 20

Cytunwyd i ofyn am barhau â St Clears a Llansteffan a Sanclêr a Llansteffan ochr yn ochr â pharhau statws dwyieithog nifer o feysydd etholiadol eraill yn y Sir. Mae 408 o bobl yn y ward yn siarad Saesneg yn unig ac fe fyddeent o fudd i barhau i ddefnyddio'r ddau enw. Dan sylw: Cyngh. Roberts Ailddewiswyd: Cyngh. Worrell O blaid: Pawb

CYNGOR CYMUNED LLANSTEFFAN A LLANYBRI

COFNODION Y CYFARFOD ARBENNIG A GYNHALIWDYD AR DDAI LLUN 20 EBRILL
2025 AM 7 YR HWYR

Eitem 20. I drafod ymateb i'r Comisiwn Ffiniau – adroddiad cynigion drafft ar gyfer trefniadau etholiadol yn sir Gaerfyrddin

Mae gan ward etholiadol bresennol Sanclêr a Llansteffan yr enw Cymraeg presennol Sanclêr a Llansteffan, a'r enw Saesneg presennol St Clears and Llansteffan. Mae'r Comisiwn yn cynnig rhoi'r enw unigol Sanclêr Llansteffan i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw arfaethedig. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg mai St Clears yw'r ffurf Saesneg yn rhestr Enwau Lleoedd Safonol Cymru, ond mae'n cytuno â'r enw unigol arfaethedig

https://d34hss7hg6i3n.cloudfront.net/reviews/Carm-AD-Adroddiad-Cynigion-Drafft_cy.pdf

Cytunwyd i ofyn am barhad o St Clears a Llansteffan a Sanclêr a Llansteffan ochr yn ochr â pharhau statws dwyieithog nifer o feysydd etholiadol eraill yn y Sir. Mae 408 o bobl yn y ward yn siarad Saesneg yn unig ac fe fyddent o fudd i barhau i ddefnyddio'r ddau enw. Dan sylw: Cyngh. Roberts Ailddewiswyd: Cyngh. Worrell O blaid: Pawb

ERP Carms 101 – Cllr Dai Thomas, Pen-y-groes

Ategedig

Dai Thomas

Ymateb i'r Comisiwn Ffiniau

Byddwn yn cefnogi cyfuno ward Pen-y-groes â ward Llanfihangel Aberbythych, yn hytrach na Phen-y-groes â Llandybïe.

1. Yn 2025, mae gan Ben-y-groes 2446 o bleidleiswyr ac mae gan Lanfihangel Aberbythych 1544. Mae hyn yn rhoi cyfanswm o 3990 o bleidleiswyr â dau gynghorydd, h.y. 1995 fesul cynghorydd, sydd 26 o bleidleiswyr yn unig yn fyr o'r cyfartaledd fesul cynghorydd (gorgynrychiolaeth 1%). Ar gyfer ffigurau rhagfynedig 2030, y gymhareb yw 2217, sydd 3% uwchlaw'r targed. Mae cyfuno Pen-y-groes â Llandybïe yn rhoi ffigur o 1973 yn unig o bleidleiswyr fesul cynghorydd o gymharu â ffigurau 2025 (gorgynrychiolaeth 2%) a rhagfynegiad o 2130 erbyn 2030.

Casgliad

Mae cyfuno Pen-y-groes â Llanfihangel Aberbythych yn cynhyrchu cymarebau sy'n agosach o lawer i'r targed na chyfuno Pen-y-groes â Llandybïe. Gall rhagfynegiadau poblogaeth fod yn annibynadwy.

2. Trof bellach at y ffigurau ar gyfer cyfuno Llandeilo â Llanfihangel Aberbythych. Byddai'r cynnig hwn yn arwain at orgynrychiolaeth o 2% o gymharu â ffigurau 2025 a 5% o gymharu â ffigurau rhagfynedig 2030.
3. Ar hyn o bryd, mae'r anheddiad ar Gate Road wedi'i rannu rhwng Llanfihangel Aberbythych a Phen-y-groes. Mae enghreifftiau o dŷ mewn un ward a'r ardd mewn ward arall. Byddai cyfuno'r wardiau yn cael gwared ar unrhyw ddryswch ac yn uno'r anheddiad. Ar y llaw arall, mae rhaniad clir rhwng unrhyw eiddo yn ward Pen-y-groes a'r rhai hynny yn Llandybïe.
4. Mae'r ddwy ward yn cynnwys pentrefi ac maen nhw'n debyg o ran cymeriad, i raddau helaeth, tra bod Llandybïe'n dref, i bob pwrpas.
5. Mae cysylltiadau hanesyddol rhwng Pen-y-groes a phentrefi fel Carmel, Milo, Castell-y-Rhingyll.
6. Byddai'r cynnig hwn yn creu ward â dau aelod. Mewn pentrefi ac ardaloedd gwledig, mae preswylwyr yn hoffi gwybod pwy yw eu cynghorwyr, ac mae ward â dau aelod yn galluogi hyn, yn wahanol i ward â thri aelod.
7. Mae'r cynnig hwn yn uno tri Chyngor Cymuned (Llanfihangel Aberbythych, Llangathen a Llandybïe) yn un ward Cyngor Cymuned a bydd yn galluogi cynghorau cymuned mwy effeithlon. Nid yw'n effeithio ar ffiniau cyngor cymuned presennol.

8. Byddai newid ffin y ward newydd i drosglwyddo'r rhan o ward Pen-y-groes sydd i'r gogledd o ffordd gyswllt economaidd Cross Hands i Gors-las yn golygu y byddai'r ward newydd yn cyrraedd y targed yn 2030. Mae'r ardal yn cynnwys Parc Bryngelli a rhan o Heol Pen-y-groes. Mae gan y rhan fwyaf o breswylwyr yn yr ardal hon gysylltiad agosach o lawer â Gors-las. Mae tua 100 o bleidleiswyr dan sylw.
9. Nid oes ffiniau naturiol rhwng Pen-y-groes a Llanfihangel Aberbythych.
10. Disgwylir i gyfarfodydd cyngor cymuned Cynghorwyr Sir adrodd ar faterion sy'n achos pryder yn eu hardaloedd unigol a derbyn adroddiadau arnynt. Ymdopir â hyn yn rhwydd trwy gyfuno Llanfihangel Aberbythych a Phen-y-groes.
11. Mae'r data ynglŷn â hyfedredd iaith Gymraeg, gofalwyr, anabledd, ac ati, yn debyg iawn ar gyfer y ddwy ward.

ERP Carms 104 – Sharon Morgan, Mayor Llandelio TC

Rwy'n cytuno â ardal y ward newydd ond nid wyf yn siŵr bod yr enw'n ei adlewyrchu'n dda iawn. Mae'n eithrio pobman i'r dwyrain o Ffairfach.

Mae hefyd yn drysu gan fod Llanfihangel Aberbythych yn ardal tra bod Llandeilo yn lle. Mae eithrio ardal Dyffryn Cennen o'r enw yn awgrymu bod yr ardal honno o bwysigrwydd llai. Credaf fod angen enw cwbl newydd yn hytrach na hanner gyfuniad fel y cynigiwyd.

Mae trio neud synnwyr allan o'r holl mapiau / dogfennau yn amhosib. Dwi'n methu gweithio allan os ydy rhai cyngorau yn cael mwy o gynghorwyr neu llai - ble mae'r ffigurau cymharol? Dwi'n amau mae eich bwriad chi yw claddu popeth mewn adroddiad sy'n dweud dim ac mae 'checkbox exercise' yw'r holl beth, mae'r penderfyniadau wedi'u gwneud eisoes. Dwi'n atodi gweddill y neges ar ddogfen Word oherwydd does dim digon o le fan hyn,

RhAE Sir Gaerfyrddin 110 – Y Cynghorydd Carys Jones, Ward Sanclêr Llansteffan

Rwy'n cytuno â'r enw newydd ar gyfer ward Sanclêr Llansteffan. Dim ond un enw sydd ei angen ar y ward a dylai'r enw hwnnw fod yn y Gymraeg.

RhAE Sir Gaerfyrddin 111 – y Cynghorwyr Hefin Jones ac Edward Thomas, Wardiau Llanfihangel Aberbythych a Llandeilo

Mae'r atodiad yn cynrychioli barn ar y cyd y Cynghorydd Hefin Jones, sy'n cynrychioli Llanfihangel Aberbythych, a'r Cynghorydd Edward Thomas, sy'n cynrychioli Llandeilo a Dyffryn Cennen. Mae'r ddogfen wedi'i rhannu gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned a chynhaliwyd trafodaethau gyda nhw.

At sylw: Swyddogion ac Aelodau Cyngor Tref Llandeilo, Cyngor Cymuned Llanfihangel Aberbythych, Cyngor Cymuned Dyffryn Cennen a Chyngor Cymuned Llangathen.

Annwyl Glerc ac aelodau,

Ar 2 Hydref 2025, cyhoeddodd y corff o'r enw Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gynigion drafft ar gyfer ymgynghoriad mewn perthynas ag uno a/neu newid enwau yn Sir Gaerfyrddin.

Argymhellir y byddai'r ddwy ward Cyngor Sir ag un aelod, sydd ar hyn o bryd o'r enw Llanfihangel Aberbythych (yn cynnwys Cynghorau Cymuned Llanfihangel Aberbythych a Llangathen) a Llandeilo (yn cynnwys Cyngor Tref Llandeilo a Chyngor Cymuned Dyffryn Cennen) yn uno i ffurfio ward newydd â dau aelod o dan yr enw arfaethedig 'Llanfihangel Aberbythych Llandeilo'.

A ninnau'n aelodau sy'n cynrychioli'r ddwy ward, mae gennym bryderon difrifol ynghylch yr uno a argymhellir a'i ganlyniadau.

- 1) Ehangder daearyddol ward arfaethedig y cyngor sir. Er bod ward tref Llandeilo yn gymharol gryno, mae Llanfihangel Aberbythych, i'r gwrthwyneb, yn ardal fawr. Byddai uno'r ddwy ward yn arwain at ardal ddaearyddol anymarferol o fawr i'w chynnwys a'i chynrychioli'n addas. Er y gallai aelodau presennol, o ystyried eu bod yn gyfarwydd â'u wardiau priodol, ymdrin â sefyllfa o'r fath rhyngddynt wrth ganolbwyntio ar yr ardaloedd y maent yn eu cynrychioli ar hyn o bryd, nid dyma fyddai'r sefyllfa o reidrwydd yn y dyfodol i aelodau a fyddai, o bosibl, heb y wybodaeth leol honno.
- 2) O ystyried bod sylfaen y pleidleiswyr yn ward Llandeilo'r cyngor sir yn fwy nag yn ward Llanfihangel Aberbythych y cyngor sir, mae potensial gwirioneddol y bydd newid mewn cynrychiolaeth yn digwydd fel yr amlinellir uchod.
- 3) A ninnau'n aelodau presennol, teimlwn, hyd yn oed o fewn trefniadau presennol wardiau'r cyngor sir, ei bod yn cymryd amser i ymgyswngiwrddo â phob mater a phryder mewn ward. Byddai'r sefyllfa hon yn gwaethgu pe bai gwybodaeth leol yn cael ei gwanhau. Byddai ansawdd y gynrychiolaeth ar gyfer trigolion yn cael ei effeithio'n andwyol o ganlyniad. Er bod heriau gwahanol o ran dwysedd y boblogaeth yn ward Llandeilo ac ehangder daearyddol ward Llanfihangel Aberbythych, mae'r ddau aelod presennol yn teimlo bod y trefniadau presennol

yn hydrin. Nid ydynt yn problemus ac nid oes ganddynt effaith andwyol ar gynrychiolaeth etholwyr.

- 4) Mae'n glir bod natur y cymunedau sydd i'w cynnwys yn y ward newydd arfaethedig yn wahanol iawn. Ceir pryderon ynghylch y posibilrwydd y bydd gofynion y rhan fwy poblog o'r ward newydd yn cymryd mwy o amser ac adnoddau gan y ddau aelod etholedig, gan gael effaith andwyol ar fuddiannau'r etholwyr yn y rhan wledig, fwy o faint, o'r ward arfaethedig â dau aelod.
- 5) Ceir pryder ynghylch enw Ward newydd arfaethedig y Cyngor Sir wedi'r cyfuno. Gan mai Llandeilo fyddai'r rhan fwyaf poblog o'r ward newydd, mae dadl i'w gwneud y dylid rhoi mwy o amlygrwydd i'r enw 'Llandeilo' fel rhan gyntaf enw Ward newydd y Cyngor Sir yn hytrach na'r cynnig presennol, sef 'Llanfihangel Aberbythych Llandeilo'.
- 6) Mae disgwyl i Gynghorwyr Sir fynychu cyfarfodydd cynghorau tref a chymuned er mwyn adrodd a derbyn adroddiadau ar faterion sy'n achosi pryder yn eu hardaloedd priodol. Ar hyn o bryd, mae dwy ward bresennol y cyngor sir yn cynnwys dwy ardal cyngor cymuned. Os bydd y wardiau Cyngor Sir presennol dan ystyriaeth yn uno, mae'n debygol y bydd disgwyl i'r Cynghorwyr Sir fynychu pedwar cyfarfod cyngor cymuned (o leiaf) bob mis. Mae hyn yn gallu bod yn anodd oherwydd dyddiadau sy'n gwrthdaro, a gallai hyn, unwaith eto, leihau ymgysylltiad â Chynghorwyr Sir.

A ninnau'n aelodau presennol, rydym wedi cymryd amser i ystyried canlyniadau a goblygiadau posibl y cynigion fel y maent, ac yn dymuno cyfleu ein pryderon ar y cyd i ardaloedd y Cynghorau Tref a Chymuned a fyddai'n cael eu heffeithio.

Gweler y ddolen i'r dogfennau ymgynghori a atodwn. Rydym yn eich annog fel cynghorau i ystyried y cynigion ac i ymateb erbyn y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad, sef 12 Tachwedd 2025.

Yn gywir,

Edward Thomas (Cynghorydd Sir – Ward Llandeilo)

Hefin Jones (Cynghorydd Sir – Ward Llanfihangel Aberbythych).

RhAE Sir Gaerfyrddin 129 – Fiona Wilkins, CC Llanedi

Gweler y llythyr a atodir sy'n manylu ar farn Cyngor Cymuned Llanedi ar y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau fel yr amlinellir yn yr adroddiad.



Cynor Cymuned LLANEDI Community Council

Tycroes Village Hall, Tycroes, Ammanford SA18 3QJ.
E-bost/E-mail: clerk@llanedi-cc.gov.wales Tel:01792 885262

10 Tachwedd 2025

I bwy bynnag a fynno wybod,

Mae ymgynghoriad y Comisiwn yn cynnig cyfuno wardiau'r Hendy a Thŷ-croes er mwyn mynd i'r afael â lefel yr amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig ar gyfer nifer yr etholwyr fesul cynghorydd yn yr Hendy. Eu nod yw gwella cydraddoldeb etholiadol ar draws y sir. Mae Cynor Cymuned Llanedi yn cydnabod pwysigrwydd cynrychiolaeth deg, ond mae hefyd yn dymuno sicrhau y cynhelir cysylltiadau cymunedol lleol, cynrychiolaeth effeithiol, a meintiau hydrin ar gyfer wardiau.

Mae aelodau Cynor Cymuned Llanedi wedi adolygu'r ffigurau etholiadol rhagamcanol a ddarparwyd yn yr adroddiad ac wedi ystyried y cynnig a wnaed gan y Comisiwn. Mae'r aelodau'n cytuno'n llawn nad ydynt eisiau gweld wardiau Tŷ-croes a'r Hendy yn cael eu huno. Felly, mae'r Cynor wedi nodi'r tri chynnig posibl canlynol, yn nhrefn eu dewis, i'w hystyried fel opsiynau amgen i gynnig y Comisiwn. Nodir isod yr effeithiau rhagamcanol a'r rhesymau ategol.

Mae aelodau Cynor Cymuned Llanedi wedi ystyried y tri opsiwn canlynol yn nhrefn eu dewis:

1. Cynnal y wardiau presennol heb unrhyw newid.
2. Trosglwyddo ardal Tal Y Clun (sydd ar hyn o bryd yn yr Hendy) i ward Llangennech.
3. Uno wardiau'r Hendy a Llanedi a phenodi cynghorydd sir ychwanegol.

Ar gyfer pob opsiwn, rydym wedi adolygu niferoedd rhagamcanol yr etholwyr (fel y'u darperir yn yr adroddiad), wedi asesu'r effaith ar yr amrywiant o'r cyfartaledd sirol, ac wedi nodi'r manteision a'r anfanteision o safbwynt y Cynor Cymuned.

Mae adroddiad y Comisiwn ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn dangos cyfartaledd sirol presennol o 1,994 o etholwyr fesul cynghorydd, gan symud i 2,102 erbyn 2030. Mae'r adroddiad yn datgan bod gan yr Hendy 2,602 o etholwyr ar hyn o bryd, sy'n rhoi'r ward tua +31% uwchlaw'r cyfartaledd sirol, a bod Tŷ-croes, sydd hefyd yn cynnwys ward Llanedi, yn llai ac yn agosach at y cyfartaledd, sef dim ond +13% uwchlaw.

Cynnig 1 – Cadw'r Wardiau Presennol (Y Dewis a Ffefrir Fwyaf)

Nifer yr etholwyr a amcangyfrifir erbyn 2030:

- Yr Hendy: 2,633 o etholwyr, 1 cynghorydd → etholwyr fesul cynghorydd = 2,633 (+25% uwchlaw'r cyfartaledd sirol rhagweledig, sef 1,915)



- Tŷ-croes: 2,267 o etholwyr, 1 cynghorydd → etholwyr fesul cynghorydd = 2,267 (+8% uwchlaw'r cyfartaledd sirol rhagweledig)

Effaith:

- Mae'r Hendy yn parhau uwchlaw'r cyfartaledd delfrydol.
- Mae Tŷ-croes yn parhau ychydig uwchlaw'r cyfartaledd delfrydol.
- Ni chaiff ffiniau eu had-drefnu; mae cysylltiadau lleol yn parhau fel y maent; cedwir hunaniaeth gymunedol.

Manteision:

- Cynnal cysondeb ar gyfer trigolion a chynghorwyr lleol gyda ffiniau a pherthnasoedd presennol.
- Osgoi dryswch a'r baich gweinyddol o ail-lunio'r ffin neu gyflwyno cynghorydd newydd.
- Cefnogi llywodraeth leol effeithiol a chyfleus wrth gadw wardiau adnabyddus, sefydledig sydd â hunaniaethau clir.
- Lleihau newid a chost.

Ystyriaethau:

- Nid yw hyn yn cywiro'r anghydbwysedd etholiadol yn yr Hendy, sy'n parhau i fod uwchlaw'r cyfartaledd delfrydol. Mae'r Cyngor yn cydnabod hyn, ond yn ystyried bod yr amrywiant (+25%) o fewn band goddefgarwch derbyniol ar gyfer cynrychiolaeth effeithiol, o ystyried ffactorau cymunedol lleol.

Safbwynt y Cyngor:

Mae'r Cyngor yn ffafrio'r opsiwn hwn gan ei fod yn cadw hunaniaeth gymunedol, yn osgoi ad-drefnu diangen, ac yn cydnabod nad yw graddfa'r gorgynrychiolaeth yn yr Hendy mor fawr fel ei fod yn tanseilio tegwch etholiadol neu gynrychiolaeth effeithiol yn ddifrifol.

Cynnig 2 – Trosglwyddo Tal Y Clun o'r Hendy i Langennech (ward â thri aelod)

Nifer yr etholwyr a amcangyfrifir erbyn 2030 (wedi'r newid):

- Yr Hendy (ar ôl trosglwyddo Tal Y Clun, tua 300 o etholwyr): 2,333 o etholwyr, 1 cynghorydd → etholwyr fesul cynghorydd = 2,333 (+11% uwchlaw'r cyfartaledd)
- Tŷ-croes: 2,267 o etholwyr, 1 cynghorydd → etholwyr fesul cynghorydd = 2,267 (+8% uwchlaw'r cyfartaledd)

Effaith:

- Gwelliant arwyddocaol yn yr amrywiant yn yr Hendy, o +25% i +11%, sef lefel fwy derbyniol.
- Mae Tŷ-croes yn parhau ychydig drosodd ar +8%, sy'n dderbyniol o hyd.
- Mae Llangennech yn elwa ar aelod ychwanegol, gan wella cynrychiolaeth.



Manteision:

- Mynd i'r afael â gorgynrychiolaeth yn yr Hendy, gan ddod â'r ward yn agos at gydraddoldeb.
- Ychydig iawn o ad-drefnu: dim ond ardal fach sy'n newid ward, felly mae'r rhan fwyaf o drigolion yn aros yn eu ward bresennol gyda'u cynghorydd presennol.
- Cadw'r Hendy a Thŷ-croes fel wardiau ag un aelod, gan gynnal symrlwydd y gynrychiolaeth.
- Gwella tegwch ac alinio'n agos ag amcan y Comisiwn o sicrhau cydraddoldeb etholiadol.

Ystyriaethau:

- Symud rhai o etholwyr yr Hendy i Langennech, gan effeithio o bosibl ar hunaniaeth gymunedol y trigolion hynny yn Nhal Y Clun.
- Anghydbwysedd posibl yn Llangennech oni bai y ceir aelod ychwanegol.
- Mae'n gofyn am newidiadau i'r ffiniau ac ad-drefnu gweinyddol (cofrestrau, cardiau pleidleisio, cyfathrebiadau).
- Gall rhai trigolion ystyried hyn yn wanhau cynrychiolaeth yr Hendy neu symud cyfrifoldebau.

Safbwynt y Cyngor:

Ystyrir bod hwn yn ail ddewis hyfyw, gan wella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol yn yr Hendy a chyfyngu ar ad-drefnu. Dylid adolygu unrhyw drosglwyddiad yn ofalus er mwyn osgoi creu anghydbwyseddau newydd.

Cynnig 3 – Uno'r Hendy a Llanedi, Penodi Cynghorydd Sir Ychwanegol

Nifer yr etholwyr a amcangyfrifir erbyn 2030 (ward wedi uno):

- Yr Hendy (2,633) + Llanedi (tua 250) = 2,883 o etholwyr
- 2 gynghorydd → etholwyr fesul cynghorydd = 1,442 (-31% islaw'r cyfartaledd o 2,102)
- Dim newidiadau i Dŷ-croes (2,017 o etholwyr, 1 cynghorydd → 4% islaw'r cyfartaledd)

Effaith:

- Gwelliant cryf o ran gorgynrychiolaeth yn yr Hendy.
- Darperir dau gynghorydd, gan gynyddu'r capasiti ar gyfer cynrychiolaeth a gwasanaeth i etholwyr.
- Cynhelir ward Tŷ-croes bron yn gyfartalog, a chedwir hunaniaeth y gymuned.

Manteision:

- Mae'r ward unedig yn rhoi dau gynghorydd fel adnodd a rennir, sy'n rhannu'r llwyth gwaith ac yn gwella hygyrchedd.
- Cedwir strwythur dwy ward gyda Thŷ-croes ar wahân, gan gynnal hunaniaeth y gymuned.



- Cyflawnir amcan y Comisiwn o sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, gan barchu cysylltiadau lleol yn ogystal.

Ystyriaethau:

- Ceir newid sylweddol o gymharu ag Opsiynau 1 neu 2; mae uno dwy ward a phenodi cynghorydd ychwanegol yn newid y sefyllfa bresennol.
- Gall trigolion yr Hendy neu Llanedi deimlo bod hunaniaeth leol yn cael ei gwanhau.
- Mae cynghorydd ychwanegol yn awgrymu cynnydd mewn costau/cyfrifoldebau a'r posibilrwydd o ailddyrranu adnoddau.
- Byddai gweithredu'r opsiwn hwn yn fwy cymhleth: sef uno gweinyddiaeth, cyfathrebu, logisteg etholiadau, a sylfaen etholiadol y cynghorwyr.

Safbwynt y Cyngor:

Fel trydydd dewis, dyma ffordd effeithiol o fynd i'r afael â gorgynrychiolaeth. Os caiff ei fabwysiadu, rhaid sicrhau digon o adnoddau ac ymgynghori yn y gymuned i gyd-fynd â'r uno, er mwyn cynnal cynrychiolaeth effeithiol a hunaniaeth leol.

Felly, mae'r Cyngor yn argymhell mabwysiadu Opsiwn 1; fodd bynnag, os ystyrir bod angen newid, Opsiwn 2 yw'r dewis gorau. Mae Opsiwn 3 yn dderbyniol os yw'r Comisiwn a'r gymuned yn ystyried bod uno'n fuddiol ac yn derbyn y newidiadau gweinyddol.

Mae Opsiwn 1 yn cadw'r sefyllfa bresennol; nid oes unrhyw ad-drefnu, ond nid yw'n mynd i'r afael yn llawn â'r amrywiant yn yr Hendy.

- Mae Opsiwn 2 yn trosglwyddo ardal fach allan o'r Hendy, gan wella cydraddoldeb yn sylweddol drwy newid cyfyngedig, a dyma ail opsiwn dewisol y Cyngor Cymuned.
- Mae Opsiwn 3 yn uno'r Hendy â Llanedi ac yn cyflwyno cynghorydd ychwanegol; mae'n darparu cynrychiolaeth dda, ond mae'n newid mwy dwys.

Rydym yn gwerthfawrogi amcan y Comisiwn o alinio'r gymhareb rhwng etholwyr a chynghorwyr, ac rydym yn croesawu gweithio'n gydweithredol i sicrhau bod y canlyniad yn deg, yn effeithiol, ac yn cydnabod cysylltiadau cymunedol lleol.

Hyderwn y bydd yr ymateb hwn yn rhoi darlun clir i'r Comisiwn o safbwynt y Cyngor, effeithiau rhagamcanol pob opsiwn, a'r rhesymeg y tu ôl i'n dewisiadau. Rydym yn hapus i drafod ymhellach neu ddarparu data atodol, os oes angen.

Yn gywir,

Y Cynghorydd Byron Evans

Cadeirydd

Cyngor Cymuned Llanedi 2025/26

RhAE Sir Gaerfyrddin 135 – Dai Nicholas, CC Llandybïe

‘Ein dewis ni yw Pen-y-groes Llandybïe gan ei fod yn unol â’n ffin bresennol ac mae perthynas agosach naturiol rhwng Llandybïe a Phen-y-groes fel Plwyf a chlwstwr o bentrefi sy’n cynnwys Caerbryn a Blaenau, tra bod Llandeilo yn dref ac mae ei chanol tua 5 milltir i ffwrdd.’

ERP Carms 139 – Dai Nicholas , Llanlanfihangel Aberbythych CC

gweler y ddogfen atodedig

Ymateb i Gynigion Drafft Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

A minnau'n glerc Cyngor Cymuned Llanfihangel Aberbythych, rwy'n ymateb i'ch cynigion drafft, a drafodwyd yn ein cyfarfod ar 27 Hydref 2025.

Mae eich cynigion drafft yn argymhell uno ward Llanfihangel Aberbythych y cyngor sir â ward Llandeilo, gan ffurfio ward newydd Llanfihangel Aberbythych Llandeilo, a fydd yn cael ei chynrychioli gan ddau gynghorydd sir. Mae gwahaniaethau daearyddol sylweddol rhwng y ddwy ward, mae Llanfihangel Aberbythych yn ardal ddaearyddol fawr, denau ei phoblogaeth, gyda chymunedau bach gwasgaredig, ac mae Llandeilo, mewn cyferbyniad, yn ward fwy trefol a dwysach ei phoblogaeth. Mynegodd aelodau Cyngor Cymuned Llanfihangel Aberbythych bryder difrifol ynghylch yr uno arfaethedig, gan gredu ei fod yn cyflwyno'r risg y byddai anghenion trigolion Llanfihangel Aberbythych yn cael eu gwanhau gan anghenion y ward fwy poblog a gynrychiolir gan Llandeilo. Roedd y cynghorwyr yn unfrydol yn eu barn y byddai Llanfihangel Aberbythych yn cael ei gwasanaethu'n well pe bai'n cael ei huno â ward Pen-y-groes. Mae'r farn hon yn seiliedig ar nifer o ffactorau, yn gyntaf, mae gan gymunedau o fewn ward Cyngor Cymuned Llanfihangel Aberbythych gysylltiadau cryf iawn â Phen-y-groes, mae hyn yn arbennig o wir am gymunedau Castell Rhingyll, Carmel, Milo a Maes-y-bont. Yn ogystal, mae'r ffin rhwng ward Llanfihangel Aberbythych a ward Pen-y-groes yn rhedeg ar hyd ffordd leol, sy'n gofyn am gydweithio agos rhwng y cynghorwyr sir priodol.

Ar ben hynny, ac yn arwyddocaol, byddai ffigurau 2025 y boblogaeth bleidleisio yn Llanfihangel Aberbythych a Phen-y-groes yn awgrymu y byddai uno'r ddwy ward yn arwain at orgynrychiolaeth is nar' hyn a fyddai'n deillio o uno Llanfihangel Aberbythych a Llandeilo. Mae ffigurau 2025 yn awgrymu bod gan Ben-y-groes 2,446 o etholwyr, a bod 1,544 o etholwyr yn Llanfihangel Aberbythych, sy'n rhoi cyfanswm o 3,990, a gyda dau gynghorydd, byddai gorgynrychiolaeth o 1%. Byddai'r ffigurau 2025 priodol ar gyfer Llanfihangel Aberbythych wedi'i huno â Llandeilo, a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, yn rhoi gorgynrychiolaeth o 2%.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i'n hymateb.

RhAE Sir Gaerfyrddin 145 – Cyngor Cymuned Gorslas

Nid yw'r Cyngor Cymuned hwn yn cefnogi ailenwi Gorslas i Gors-las fel y nodir yn yr ymgynghoriad hwn. Mae'r Cyngor yn deall bod y newid hwn wedi'i ysgogi gan Gomisiynydd y Gymraeg, ond nid yw'n ymwybodol o unrhyw ymgynghoriad ffurfiol â Chyngor Cymuned Gorslas na thrigolion lleol ar y mater hwn.

RhAE Sir Gaerfyrddin 147 – Y Cynghorydd Tina Higgins, Tŷ-croes

Wardiau Tŷ-croes/Yr Hendy – Dylid cadw'r trefniant presennol, sef wardiau ar wahân, am y rhesymau canlynol.

Os nad yw ymgeisydd yn gyrru, nid oes trafnidiaeth gyhoeddus uniongyrchol o un pen o ward Tŷ-croes i ward yr Hendy. Byddai'r ward yn rhy fawr. Byddai hyn hefyd yn anfantais i unrhyw berson anabl a allai fod yn dymuno sefyll mewn etholiad y cyngor.

Mae poblogaeth yr Hendy yn fwy na phoblogaeth Tŷ-croes, felly mae posibilrwydd y byddai'r ddau Gynghorydd etholedig, ni waeth beth fo'u plaid, yn dod o'r Hendy bob amser, gan adael trigolion Tŷ-croes heb gynrychiolaeth deg.

Gan fod yr amrywiant yn Nhŷ-croes ond ychydig uwchlaw'r goddefiant o ran cynrychiolaeth gyfartalog, nid wyf yn credu bod angen uno'r ward â'r Hendy, ond yn hytrach y dylid edrych ar ward yr Hendy gyda'r bwriad o leihau'r niferoedd yno, gan ystyried y datrysiadau a gynigir gan Gyngor Cymuned Llanedi.

Nid yw amseriad y newidiadau arfaethedig yr ochr hon i etholiad nesaf y Cyngor yn rhoi amser i ymgeiswyr ddod i adnabod yr ardaloedd eraill a fyddai mewn ward fwy o faint. Byddwn yn gofyn am ohirio hyn os bydd symudiad i uno'r wardiau.

Byddai gadael yr Hendy a Thŷ-croes fel wardiau ar wahân yn cadw unigrywder y naill ward a'r llall.

RhAE Sir Gaerfyrddin 148 – Mark Bleasdale, Cyngor Tref Llandeilo Fawr

Trafodwyd y cynigion yng nghyfarfod diwethaf Cyngor Tref Llandeilo Fawr, a chafwyd safbwyntiau cymysg, ac anogwyd pob cynghorydd i gyflwyno ei ymatebion unigol ei hun. Roedd rhai o'r farn y byddai gwaith dau gynghorydd yn cael ei rannu'n well wrth ddefnyddio technoleg a gallu mynychu cyfarfodydd o bell. I'r gwrthwyneb, roedd rhai o'r farn bod enw'r ward newydd ar gyfer yr ardal yn bychanu'r ffaith bod tref â phoblogaeth yn ganolog iddi, ac er ei fod efallai'n dangos parch tuag at y Gymraeg, mae'n rhy gymhleth. Yn ogystal, wrth gael dau gynghorydd, bydd llai o ddiddordeb uniongyrchol gan bob cynghorydd, a byddai eu llwyth gwaith wedi'i wasgaru'n eang yn ddaearyddol. Mae'n bwysig cynnal ymgynghoriad pellach â'r cyhoedd.

RhAE Sir Gaerfyrddin 149 – Y Cynghorydd Hazel Evans, Cenarth a Llangeler

Ysgrifennaf fel Aelod Lleol dros ward Cenarth a Llangeler a welodd ad-drefnu'r ward bum mlynedd yn ôl. Roedd pob un o'm Cyngorau Cymuned yn gwrthwynebu'r newid oherwydd yr ardal ddaearyddol enfawr a oedd wedi'i chynnwys yn y ward newydd, ac rwy'n credu bod hynny'n eich tynnu ymhellach i ffwrdd oddi wrth y cyhoedd a wasanaethwch. Dylai ail-drefnu ddechrau gyda'r Cyngorau Cymuned a Thref ac wedyn wardiau'r Sir.

Gyda'r ad-drefnu hwn, hoffwn eich annog i ystyried sylwadau'r Aelodau lleol ac uno Gorslas â Llanfihangel Aberbythych gan eu bod nhw'n adnabod eu cymuned leol.

RhAE Sir Gaerfyrddin 150 – Y Cynghorydd Callum Higgins, Tŷ-croes

Ysgrifennaf i wrthwynebu'r Ward newydd arfaethedig hon, ar y sail nad yw'n cyflawni amcanion datganedig y Comisiwn wrth arolygu ffiniau, a bydd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i ganlyniadau etholiadol yn yr etholiad nesaf, gan dorri'r egwyddor y dylai cynigion fod yn niwtral yn eu canlyniadau.

Bydd 4,844 o etholwyr yn ward etholiadol arfaethedig yr Hendy a Thŷ-croes, yn cael eu cynrychioli gan ddau gynghorydd, sydd 20% yn uwch na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol o 2,021.

Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 4,900 o etholwyr a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 15% yn uwch na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol o 2,130.

Mae'r cynnig hwn yn gwaethgu'r trefniant rhagamcanol presennol ar gyfer Tŷ-croes o 8% yn uwch na'r cyfartaledd sirol, i 15% yn uwch, wrth gysylltu'r ward â chymuned nad oes ganddi lawer yn gyffredin â hi.

Diffyg cysylltiadau cymunedol:

Mae'r Hendy a Thŷ-croes yn gymunedau gwahanol iawn. Cânt eu cynrychioli gan un Cyngor Cymuned, sydd wedi mynegi barn yn aml y dylid eu gwahanu'n ddwy gymuned, ond eu bod yn aros yn un am resymau ariannol i raddau helaeth. Ar lefel Cymuned, ceir ysgolion, clybiau chwaraeon, cymdeithasau a grwpiau cymunedol gwahanol. Mae cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y ddwy gymuned yn brin, ni ellir cerdded o'r naill i'r llall, ac i raddau helaeth nid ydynt yn gorgyffwrdd.

Effaith wleidyddol y cynnig hwn

Mae hanes gan y ddwy gymuned o ganlyniadau etholiad gwahanol. Bu Tŷ-croes yn sedd Lafur ers ei sefydlu, a bu'r Hendy'n fwy ymylol ond wedi'i hennill i raddau helaeth gan Blaid Cymru. Mae'n debygol y bydd uno'r ddwy sedd hyn yn arwain at ethol dau gynghorydd o'r Hendy, gan adael Tŷ-croes heb y gynrychiolaeth y bu ganddi'n hanesyddol. Er ei bod yn bosibl y gallai Tŷ-croes ethol dau aelod, mae'n debygol ar sail poblogaeth mai'r senario gyntaf fydd yn digwydd. Byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar y ddwy gymuned, gan y byddai un o'r cymunedau'n cael ei gorgynrychioli a'r llall yn profi diffyg cynrychiolaeth yn sydyn yng ngolwg yr etholwyr, gan effeithio'n negyddol ar y canfyddiad o'r system llywodraeth leol yn ei chyfanrwydd.

Awgrymiadau

Yn yr arolwg blaenorol, symudwyd ward gymunedol Llanedi i Ward Sirol Tŷ-croes, er mwyn cydbwysu'r poblogaethau rhwng Tŷ-croes a'r Hendy. Mae hyn wedi gwasanaethu'r cymunedau dan sylw yn dda ac mae'n boblogaidd gyda'r etholwyr. Er y byddem yn dymuno i hyn barhau, pe bai angen, gellir symud Llanedi yn ôl i Ward yr Hendy.

Mae'r Hendy a Llangennech yn agosach o ran cysylltiadau cymunedol na'r Hendy a Thŷ-croes, ac mae'n bosibl edrych ar Ward â thri aelod ar gyfer yr Hendy a Llangennech. Ceir hefyd y posibilrwydd o symud ffiniau'r Hendy er mwyn rhoi rhywfaint o'i phoblogaeth sy'n agos at Llangennech i mewn i'r Ward honno, gan leihau maint yr Hendy a chynyddu maint Llangennech ychydig bach.

Er fy mod yn amau y gwnaed y penderfyniad hwn yn bennaf ar sail ffigurau poblogaeth ac fel ymarfer bwrdd gwaith, ac mai mater o ffurf yw'r ymgynghoriad, byddwn yn annog y Comisiwn i gydnabod y gwahaniaeth y mae newidiadau fel hyn yn ei wneud i gymunedau ar lawr gwlad. Ar bapur, rwy'n deall yr angen i gydbwysu niferoedd y boblogaeth, ond gall y gwahaniaethau mewn

cynrychiolaeth gymunedol dros ychydig filltiroedd fod yn sylweddol mewn ardal lled-wledig fel hon. Yn anffodus, bydd y cynnig hwn yn tanseilio rôl cynrychiolwyr llywodraeth leol yn yr ardal.

RhAE Sir Gaerfyrddin 152 – Y Cynghorydd Sharen Davies, ward Llwynhendy

1. Colli Hunaniaeth Leol a Chydlyniant Cymunedol

Mae gan Lwynhendy a Pemberton hunaniaethau hanesyddol, cymdeithasol a daearyddol ar wahân sy'n gysylltiedig â'r pentref, cyfleusterau lleol a rhwydweithiau cymunedol. Wrth eu huno â Bynea, ceir perygl o wanhau'r hunaniaethau hynny a'r cysylltiadau cymunedol y mae trigolion yn dibynnu arnynt ar gyfer cynrychiolaeth ac ymgysylltiad.

Nid yw'r newid arfaethedig yn ystyried yn ddigonol yr ymdeimlad lleol o le a'r perthnasoedd sefydledig presennol rhwng trigolion a'u cynghorwyr lleol.

2. Amharu ar Gynrychiolaeth Effeithiol

Mae trefniadau presennol y wardiau yn galluogi cynghorwyr i ganolbwyntio ar faterion, anghenion a gwasanaethau penodol y gymuned leol (er enghraifft, yn Llwynhendy/Pemberton). Wrth greu ward fwy o faint, wedi'i chyfuno, gallai'r cynrychiolydd wynebu llwyth gwaith mwy heriol, yn ymwneud ag is-ardaloedd mwy amrywiol sydd â blaenoriaethau gwahanol. Mae hyn yn peryglu effeithiolrwydd atebolrwydd democrataidd a hygyrchedd y cynghorydd.

Mae ymgynghoriad CDFfC ei hun yn nodi mai un o'i amcanion yw sicrhau bod "cynghorwyr yn gallu rhannu llwyth gwaith mwy cyfartal". Fodd bynnag, rhaid cydbwysu hyn yn erbyn gallu ymarferol cynghorydd i wasanaethu cymunedau gwahanol yn dda, sef ffactor y mae'n ymddangos nad oes pwyslais digonol arno yn y cynigion.

3. Gwanhau Cysylltiadau Lleol a Ffiniau Cymunedol

Er bod y meini prawf statudol ar gyfer adolygu wardiau yn cynnwys cyflawni cydraddoldeb etholiadol (sef cael cyfartaledd bras o ran nifer yr etholwyr fesul cynghorydd), mae cysylltiadau lleol a hunaniaeth gymunedol yn allweddol, hefyd. Ymddengys bod y cynnig i uno Llwynhendy a Bynea yn blaenoriaethu cydraddoldeb rhifiadol dros gydlyniant cymunedol lleol. Nododd adroddiad cynharach CDFfC fod cyfuno Llwynhendy a Bynea yn un opsiwn, ond y dylid ystyried cynrychiolaeth leol yn ofalus.

Nid yw dogfennau'r ymgynghoriad yn dangos yn ddigonol fod cysylltiadau lleol rhwng y cymunedau hyn yn cyfiawnhau'r uno, er enghraifft gwahaniaethau mewn daearyddiaeth, amwynderau a ddefnyddir, patrymau teithio, a chysylltiadau hanesyddol.

4. Diffyg Tystiolaeth o Fanteision a'r Risg o Ganlyniadau Anfwriadol

Nid yw'r cynnig yn cyflwyno achos clir a chymhellol y bydd uno'r wardiau hyn yn gwella llywodraethu lleol neu ddarpariaeth gwasanaethau yn sylweddol. I'r gwrthwyneb, ceir risg o ganlyniadau anfwriadol: llai o ymgysylltiad dinesig, lleihau'r llais lleol, dryswch ymhlith etholwyr ynghylch hunaniaeth a chynrychiolaeth y ward, a'r posibilrwydd y bydd cymunedau llai o faint yn cael eu taflu i'r cysgod o fewn ardal etholiadol fwy o faint.

Rhaid rhoi rhagor o sylw i bwysu a mesur y costau cyfle wrth golli strwythur presennol y ward.

5. Pryderon ynghylch Amseru ac Ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori (sy'n dod i ben ar 12 Tachwedd 2025) yn gwahodd trigolion i roi eu barn. Fodd bynnag, mae pryder y gallai'r newid arfaethedig fynd rhagddo heb drafodaeth leol ddigonol ynghylch manylion ffiniau, effeithiau posibl ar y gymuned, neu drefniadau trosiannol ar gyfer sut y bydd trigolion yn cael eu cynrychioli. O ystyried sensitifrwydd lleol, yn enwedig yr ymdeimlad o darfu ymhlith llawer o drigolion pan fydd ffiniau'n cael eu hail-lunio, byddai ymgysylltu lleol mwy trylwyr yn fwy priodol.

Dewis Arall Arfaethedig

Yn hytrach na chyfuno Llwynhendy/Pemberton â Bynea i greu un ward fwy o faint, rwy'n cynnig:

- Cadw Llwynhendy (a ward Pemberton) fel ward etholiadol ar wahân, gyda'i chynghorydd/cynghorwyr ei hun, sy'n adlewyrchu maint a hunaniaeth y gymuned.

- Os oes angen addasiadau er mwyn cywiro cydraddoldeb etholiadol, dylid ystyried newidiadau bach i'r ffiniau o fewn ward Llwynhendy (er enghraifft, addasu ar gyfer cymunedau cyfagos sydd â chysylltiadau cryf) yn hytrach na chyfuno'n gyfan gwbl â chymuned ar wahân fel Bynea.
- Sicrhau bod unrhyw gyfluniad ward newydd yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth gynhwysfawr o hunaniaeth gymunedol a rennir, defnydd cyffredin o wasanaethau, cysylltiadau trafnidiaeth, dalgylchoedd ysgolion, a'r economi leol, a chyflwyno hynny'n gyhoeddus cyn gweithredu.
- Dylid darparu cefnogaeth dros dro i drigolion er mwyn iddynt ddeall y newid, sut y bydd eu cynrychiolaeth yn gweithredu, a sut y gallai gwasanaethau lleol gael eu heffeithio.

RhAE Sir Gaerfyrddin 153 – Y Cynghorydd Hefin Jones, ward Llanfihangel Aberbythych

Mewn ymateb i'r cynigion i uno ward Llanfihangel Aberbythych â ward Llandeilo, mae gen i'r pryderon canlynol:

1) Ehangder daearyddol ward arfaethedig y cyngor sir. Er bod ward tref Llandeilo yn gymharol gryno, mae Llanfihangel Aberbythych, i'r gwrthwyneb, yn ardal fawr. Byddai uno'r ddwy ward yn arwain at ardal ddaearyddol anymarferol o fawr i'w chynnwys a'i chynrychioli'n addas. Er y gallai aelodau presennol, o ystyried eu bod yn gyfarwydd â'u wardiau priodol, ymdrin â sefyllfa o'r fath rhyngddynt wrth ganolbwyntio ar yr ardaloedd y maent yn eu cynrychioli ar hyn o bryd, nid dyma fyddai'r sefyllfa o reidrwydd yn y dyfodol i aelodau a fyddai, o bosibl, heb y wybodaeth leol honno.

2) O ystyried bod sylfaen y pleidleiswyr yn ward Llandeilo'r cyngor sir yn fwy nag yn ward Llanfihangel Aberbythych y cyngor sir, mae potensial gwirioneddol y bydd newid mewn cynrychiolaeth yn digwydd fel yr amlinellir uchod.

3) A ninnau'n aelodau presennol, teimlwn, hyd yn oed o fewn trefniadau presennol wardiau'r cyngor sir, ei bod yn cymryd amser i ymgyfarwyddo â phob mater a phryder mewn ward. Byddai'r sefyllfa hon yn gwaethygu pe bai gwybodaeth leol yn cael ei gwanhau. Byddai ansawdd y gynrychiolaeth ar gyfer trigolion yn cael ei effeithio'n andwyol, o ganlyniad. Er bod heriau gwahanol o ran dwysedd y boblogaeth yn ward Llandeilo ac ehangder daearyddol ward Llanfihangel Aberbythych, mae'r ddau aelod presennol yn teimlo bod y trefniadau presennol yn hydrin. Nid ydynt yn broblemus ac nid oes ganddynt effaith andwyol ar gynrychiolaeth etholwyr.

4) Mae'n glir bod natur y cymunedau sydd i'w cynnwys yn y ward newydd arfaethedig yn wahanol iawn. Ceir pryderon ynghylch y posibilrwydd y bydd gofynion y rhan fwy poblog o'r ward newydd yn cymryd mwy o amser ac adnoddau gan y ddau aelod etholedig, gan gael effaith andwyol ar fuddiannau'r etholwyr yn y rhan wledig, fwy o faint, o'r ward arfaethedig â dau aelod.

5) Mae disgwyl i Gynghorwyr Sir fynychu cyfarfodydd cynghorau tref a chymuned er mwyn adrodd a derbyn adroddiadau ar faterion sy'n achosi pryder yn eu hardaloedd priodol. Ar hyn o bryd, mae dwy ward bresennol y cyngor sir yn cynnwys dwy ardal cyngor cymuned. Os bydd y wardiau Cyngor Sir presennol dan ystyriaeth yn uno, mae'n debygol y bydd disgwyl i'r Cynghorwyr Sir fynychu pedwar cyfarfod cyngor cymuned (o leiaf) bob mis. Mae hyn yn gallu bod yn anodd oherwydd dyddiadau sy'n gwrthdaro, a gallai hyn, unwaith eto, leihau ymgysylltiad â Chynghorwyr Sir.

O ganlyniad, byddwn yn cefnogi'r cynnig amgen a ystyriwyd – sef uno ward Pen-y-groes â ward Llanfihangel Aberbythych. Mae'r rhesymau fel a ganlyn:

1. Yn 2025, mae gan Ben-y-groes 2,446 o etholwyr, ac mae 1,544 o etholwyr yn Llanfihangel Aberbythych. Mae hyn yn rhoi cyfanswm o 3,990 o etholwyr gyda dau gynghorydd, h.y. 1,995 o etholwyr fesul cynghorydd, sydd ond yn 26 o etholwyr yn brin o'r cyfartaledd fesul cynghorydd. (Gorgynrychiolaeth o 1%). O ran y ffigurau a ragwelir ar gyfer 2030, y gymhareb yw 2,217, sydd 3% uwchlaw'r targed. Mae uno Pen-y-groes â Llandybïe yn rhoi ffigur o 1,973 o etholwyr yn unig fesul cynghorydd yn ôl ffigurau 2025 (sef gorgynrychiolaeth o 2%) a rhagfynegiad o 2,130 erbyn 2030.

Casgliad

Mae uno Pen-y-groes â Llanfihangel Aberbythych yn rhoi cymarebau llawer agosach at y targed na chyfuno Pen-y-groes â Llandybïe. Gall rhagfynegiadau ar gyfer y boblogaeth fod yn annibynadwy.

2. O ran y ffigurau ar gyfer uno Llandeilo â Llanfihangel Aberbythych, byddai'r cynnig hwn yn arwain at orgynrychiolaeth o 2% yn ôl ffigurau 2025, a 5% yn ôl y ffigurau rhagfynegedig ar gyfer 2030.
3. Ar hyn o bryd, mae'r anheddiad ar Heol y Gât wedi'i rannu rhwng Llanfihangel Aberbythych a Phen-y-groes. Ceir enghreifftiau o dŷ mewn un ward a'r ardd mewn ward arall. Byddai uno'r wardiau yn dileu unrhyw ddryswch ac yn uno'r anheddiad. Ar y llaw arall, mae rhaniad clir rhwng unrhyw eiddo yn ward Pen-y-groes ac eiddo yn Llandybïe.
4. Mae'r ddwy ward yn cynnwys pentrefi ac maent yn debyg o ran cymeriad, i raddau helaeth, ond mae Llandybïe yn dref, i bob pwrpas.
5. Mae cysylltiadau hanesyddol rhwng Pen-y-groes a phentrefi fel Carmel, Milo, Castell-y-Rhingyll.
6. Byddai'r cynnig hwn yn creu ward â dau aelod. Mewn ardaloedd gwledig a phentrefi, mae trigolion yn hoffi gwybod pwy yw eu cynghorwyr, ac mae ward â dau aelod yn hwyluso hyn yn well na ward â thri aelod.
7. Mae'r cynnig hwn yn uno tri Chyngor Cymuned (Llanfihangel Aberbythych, Llangathen a Llandybïe) yn un ward Cyngor Sir a bydd yn galluogi cynghorau cymuned mwy effeithlon. Nid yw'n effeithio o gwbl ar ffiniau presennol y cynghorau cymuned.
8. Byddai newid ffin y ward newydd er mwyn trosglwyddo'r rhan o ward Pen-y-groes sydd i'r gogledd o ffordd gyswllt economaidd Cross Hands i Gorslas yn golygu y byddai'r ward newydd yn unol â'r targed yn 2030. Mae'r ardal yn cynnwys Grove Hill Park a rhan o Heol Pen-y-groes. Mae gan y rhan fwyaf o drigolion yr ardal hon gysylltiad llawer agosach â Gorslas. Mae'r cynnig yn ymwneud â thua 100 o etholwyr.
9. Nid oes unrhyw ffiniau naturiol rhwng Pen-y-groes a Llanfihangel Aberbythych.
10. Mae disgwyl i Gynghorwyr Sir fynychu cyfarfodydd cynghorau cymuned er mwyn adrodd a derbyn adroddiadau ar faterion sy'n achosi pryder yn eu hardaloedd priodol. Gellir ymdrin â hyn yn hawdd wrth gyfuno Llanfihangel Aberbythych a Phen-y-groes.
11. Mae'r data ar hyfedredd yn y Gymraeg, gofalwyr, anabledd ac ati yn debyg iawn ar gyfer y ddwy ward.

Mae'r safbwyntiau hyn wedi'u casglu yn dilyn trafodaethau rhwng cynghorwyr sir presennol, ac ar ôl sgysiau manwl gyda chynghorwyr cymuned. Mae pawb ohonom yn credu, er bod cyflawni'r lefel orau bosibl o gynrychiolaeth yn bwysig, na allaf orbwysleisio pwysigrwydd yr aliniad rhwng natur a chymeriad wardiau sy'n uno, ynghyd â chysylltiadau hanesyddol rhwng yr ardaloedd hynny.

Hefin Jones

Cynghorydd Sir – Llanfihangel Aberbythych

ERP Sir Gaerfyrddin Dim Sylw Tabl

Rhif.	ENW	Sefydliad	Cytuno â'r Adroddiad Cynigion Drafft
53		Aelod o'r Cyhoedd	Na
60	Mari Arthur	Cynghorydd Cymuned Trimsaran	Ydw
75		Aelod o'r Cyhoedd	Na
134		Aelod o'r Cyhoedd	Ydw